COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**15fed Medi 2020**

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Ymateb i adroddiad sbotolau PEEL, 'The Hard Yards': Cydweithio rhwng heddluoedd**

Mae'n galonogol gweld cydnabyddiaeth i'r modd y mae gan y cydweithredu Cymru Gyfan synnwyr cryf o bwrpas i wella plismona ar gyfer Cymru gyfan, a hynny gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Rwyf yn falch ein bod yn ystod fy nghyfnod i fel Cadeirydd y Grŵp Plismona Cymru Gyfan, gyda'n gilydd wedi gallu gwella ymhellach ein perthynas weithiol gadarn gydag Uned Cyswllt yr Heddlu Llywodraeth Cymru. Rwyf yn hyderus y bydd y Grŵp yn parhau i wella ei drosolwg a chraffu o gydweithredu dros y flwyddyn hon ac y tu hwnt i hynny.

Rwyf wedi croesawu penderfyniad yr Heddlu i gyflwyno Swyddog Gwireddu Buddion, a ddylai gynorthwyo'r Heddlu wrth ddangos y gwerth a ychwanegir drwy brosiectau blaengar. Byddaf yn parhau i gydweithio'n agos gyda'r Heddlu i sicrhau y gwireddir ac yr elwir yn briodol ar effaith cydweithrediadau a phrosiectau lleol fel ei gilydd.